

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2013**

---

Amser: **09:30 – 12:35**

---

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_400000\\_10\\_07\\_2013&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_10_07_2013&t=0&l=cy)

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Cofnodion Cryno:

### Aelodau'r Cynulliad:

David Rees  
Leighton Andrews  
Rebecca Evans  
William Graham  
Lynne Neagle  
Gwyn R Price  
Lindsay Whittle  
Kirsty Williams

---

### Tystion:

Dr Helen Bedford, UCL Institute of Child Health  
John Burge, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.  
Dr Sara Hayes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol  
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Dr Marion Lyons, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Joff McGill, Sense  
Dr Ian Millington, Pwyllgor Meddygol Lleol Abertawe Bro Morgannwg  
Nick Morris, Sense

---

---

Dr Gillian Richardson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan  
Andrew Riley, Uwch-swyddog Meddygol  
Dr Quentin Sandifer, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Dr Andy Williams, Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd

---

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)  
Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)  
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

---

## TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

### 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

2.1 Cafodd David Rees ei ethol yn Gadeirydd dros dro.

### 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vaughan Gething a Ken Skates ar ôl iddynt gael eu penodi yn Ddirprwy Weinidgoion i Lywodraeth Cymru a gan Elin Jones a Darren Millar. Roedd Leighton Andrews a David Rees yn dirprwyo.

3.2 Datganodd Leighton Andrews, at ddiben eitem 4b, ei fod yn athro anrhydeddus yn Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd.

### 4 Ymchwiliad i'r achosion o'r frech goch 2013 – tystiolaeth ar lafar

Tystiolaeth gan Fyrddau Iechyd Lleol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

4.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Tystiolaeth ar rôl y cyfryngau

4.2 Bu Dr Andy Williams yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.3 Cytunodd Dr Williams i ddarparu copi o'r canllawiau i newyddiadurwyr a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfryngau Gwyddoniaeth.

Tystiolaeth gan Sense ac UCL Institute of Child Health

4.4 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.5 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.6 Cytunodd Dr Sandifer i roi manylion am nifer y brechiadau MMR a roddwyd yn ardal Abertawe yn ystod yr ymgyrch genedlaethol i annog mwy o bobl i gael y brechiad yn 2005-6.

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

4.7 Bu'r Gweinidog a Dr Hussey yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.8 Cytunodd Dr Hussey i roi eglurhad am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a lechyd Cyhoeddus Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig am yr ymgyrch dal i fyny genedlaethol yn 2005. Cytunodd Dr Hussey gadarnhau, hefyd, a oedd y llythyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd yn 2009 yn eu hannog i gydymffurfio â *Chylchlythyr Iechyd Cymru 2005* yn un generig neu'n un a oedd yn canolbwyntio ar ardal ddaearyddol benodol.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

5.2 Nododd y Pwyllgor yn ffurfiol ei fod wedi cytuno ar ei adroddiad Cygnod 1 ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac y bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 19 Gorffennaf.

Ymchwiliad i'r achosion o'r frech goch 2013 – Tystiolaeth ysgrifenedig gan BMA Cymru

5.3 Nododd y Pwyllgor y papur.

Ymchwiliad i'r achosion o'r frech goch 2013 – Tystiolaeth ysgrifenedig gan Goleg

Nyrsio Brenhinol Cymru

5.4 Nododd y Pwyllgor y papur.